

Eisteddfod Swyddffynnon 2021

Yn anffodus eleni ni fu modd i ni gynnal yr Eisteddfod yn ôl yr arfer a hynny oherwydd sefyllfa Covid-19. Felly, nôl yn yr Hydref wrth orfod gwneud penderfyniad, cytunwyd y byddem yn medru parhau efo'r cystadlaethau llenyddiaeth a ffotograffiaeth, a glynnu at gyhoeddi'r canlyniadau ar ddiwrnod yr Eisteddfod, sef 26ain Chwefror 2021.

Y beirniaid llenyddiaeth oedd John a Menna Jones, Ffair Rhos a dyma eu beirniadaeth hwy i chi o'r cyfansoddiadau a ddaeth i law:

Bobol bach-am gystadlu! Mae'r pandemig byd eang wedi creu poenau a thristwch i filiynau ac mae'n parhau i wneud hynny. Ond yng nghanol y cloeon mawr a newid ffordd o fyw, mae ein beirdd a'n llenorion wedi dal ati i greu a hynny ar raddfa tu hwnt o swmpus. Er gwaethaf gohirio Eisteddfodau, ni ddinistriwyd yr awen, ac mae cynhyrchion llenyddol Eisteddfod Swyddffynnon 2021 yn brawf pendant o hynny.

Roeddem wedi gobeithio cael rhyw ddwsin i bymtheg o ymdrechion ymhob categori, ond pan gyrhaeddodd y cyfansoddiadau drwy law'r ysgrifenyddes, Annwen Isaac, dros y penwythnos, aed ati i gyfri, ac er mai ond pedair cystadleuaeth lenyddol oedd yno, derbyniwyd 258 o ymdrechion - ie, 258. Anhygoel, a phob un o safon gymeradwy.

Tasg cwbl amhosibl bron oedd mynd ati i wneud penderfyniadau, a bu darllen a darllen a darllen, gan greu pentyrrau di-ri ar y bwrdd oedd lawer rhy fach i'r broses ddioli. Ond wedi tridiau a their noson lafurus, rhaid oedd dod i ryw fath o derfyn, ac weithiau nid yw dau ben yn well nag un gan fod gwahaniaeth barn yn medru creu anghytundeb!!!

Fodd bynnag, dyma ni o'r diwedd wedi cytuno, gan bwysleisio mai'n naturiol chwaeth bersonol sydd wedi ein cynorthwyo i osod trefn. Yn bendant, buasai beirniaid eraill mwy na thebyg wedi ei gweld hi fel arall, ond dyna yw anrhydedd beirniad ymhob cystadlu.

1. GORFFEN LIMERIG yn cynnwys y llinellWRTH FYND DRWY SWYDDFFYNNON UN NOSON. (68 o gynigion)

1af "NEB" – Eryl Rees, Tregaron

2il "Lili Wen Fach" – Bethan Morgan, Silian

3ydd "Meinwen" – Megan Richards, Aberaeron

efo clod arbennig i Gwawr, Jac, Meri, Theo a'r Hen Shop

Cyfres o 4 limerig doniol, diniwed gan NEB sy'n codi calon a gwneud i ni chwerthin yn uchel - mynd ar goll ym mherfeddion Cors Caron, gweld rhywun yn yr afon, ysbryd ger yr hen gapel a plismon yn eu dal allan heb rewsm pan oeddent fod gartre adeg y clo.

Aeth LILI WEN FACH at Steddfod Tregaron 2022 bellach, a dod o hyd i Jim a'i goron (Jim Parc Nest mi dybiaf). Roedd e'n chwilio am lety'n barod i'r wyl!

Mae MEINWEN wedi dychwelyd at ei gwreiddiau - gweld y bwthyn lle'i magwyd yn adfail, yr ysgol a'r siop ar gau, cyfeillion wedi mynd. Efen o dristwch ond wedi ei gyfleu'n gelfydd. Daeth y cyfan ag atgofion nôl i minnau pan oedd yr ysgol fach yn fwrlwm a'r pentre'n llawn bywyd.

2. GORFFEN LIMERIG yn cynnwys y llinell..... AM FLWYDDYN NA WNAWN FYTH ANGHOFIO. (50 o gynigion)

1af "Ben Llyn" – Anwen James, Llangeithio

2il "Mererid" – Megan Richards, Aberaeron

3ydd "Isfoel" ac "Annabelle" Megan Richards a Mari Morgan, Llanrhystud

Fel gyda'r gystadleuaeth gyntaf, cyfres o limrigau rhagorol gan BEN LLYN - 6 ohonynt, sy'n cael y wobr gyntaf. Amhosibl yw eu gwahanu. Mae'r 6 yn crynhoi y cyfan sydd wedi digwydd dros y 12 mis diwethaf. Er fod yna ddifrifoldeb mawr yn y cynnwys, mae na hefyd ddoniolwch pur.

Cawn hefyd gan BEN LLYN gyfeiriadau craff at y 'loc down', saniteiddio, dysgu ar lein, mygydau, 'Zoom', 'Teams', y Senedd, Mark a Kirsty, y brechlyn ac hyd yn oed cyfeiriad at 2 arwr lleol - Dafydd Jones, Penlan ac Efan Williams, Y Gwyndy, yn cael stop ar berfformio a chyngherddau.

Rydym yn hoffi'r ffugenw hefyd - BEN LLYN (tybiwn mai cyfieithiad o'n Aelod Seneddol parchus yw e, Ben Lake. Hyfryd!!!

Caiff MERERID ail agos. Hithau wedi dilyn trywydd tebyg gyda 5 limerig hyfryd.

Rhennir y drydedd wobr rhwng ISFOEL ac ANNABELLE. Yng nghanol casgliad ISFOEL ceir un limerig syml, doniol iawn, sy'n crynhoi'r cyfan:

Am flwyddyn na wnawn fyth anghofio
Dyweddodd Llywelyn a lanto,
Alfor a Dwyfor
A Brynmor ac Ifor.
A Deio, Gwynoro a Caio.

Sdim eisiau dweud mwy - mae pawb yn trafod 2020. Gwych!

Mae'n fy atgoffa o limerig buddugol y diweddar Ann Rhys yn Steddfod Felinfach rai blynyddoedd yn ôl:

O ben mynydd Tychrug ceir gweled (dyna oedd y linell)
Defed a defed a defed,
A defed a defed
A defed a defed
A defed a defed a defed !!!

Anfarwol!!!

3. BRAWDDEG - CORS CARON (63 o gynigion)

1af – “Cadi” – Carys Briddon, Tre'r Ddol

2ail – “Marged Ann” - Mari Morgan

3ydd – “Jimmy” a “Nico” – Alice Jones, Tregaron a John Jenkins, Llanilar

Cystadleuaeth arbennig arall. Roedd hi'n agos iawn rhwng y cyntaf a'r ail. 5 brawddeg rymus gan CADI'n sôn am wahanol bynciau, fel yr oedfa'n cael ei recordio, y covid ac Eisteddfod Tregaron, tra roedd Marged Ann wedi mynd i'r gors yn llythrennol, gan gyfeirio at ei harddwch.

Y Covid oedd thema brawddegau arbennig JIMMY a NICO hefyd.

4. BRYNEGES - G (77 o gynigion)

1af - “DRUDWY” – Gwenan Morgan Lyttle, Tregaron

2ail – “Elsi” – John Meurig Edwards, Aberhonddu

3ydd- “GWDI HW” a “GARIBALDI GWYLLT” - Anwen James, Llangeitho

Clod hefyd i Gwenllain, Gyrnsi, Tir Bach a Geraint

Cystadleuaeth ragorol arall. Wydden ni ddim fod cymaint o eiriau'n cychwyn gyda 'G'!!!. Roedd y brynegeseuon yn rhedeg yn llyfn ac yn gwneud synnwyr. Unwaith yn rhagor cafwyd y dwys a'r doniol, y llon a'r lleddf.

Gofid a galar mewn cymunedau oedd brysneges wych fuddugol DRUDWY, tra roedd ymdrech ELSI’N gwbl i’r gwrthwyneb gyda neges ddoniolaf yr holl gystadlu mae’n siwr, wrth i’w ‘gast gostfawr’ ddod i drwbwl fel canlyniad i ‘gi Gwylfa’ ymweld â hi!!!

Roedd GWDI HW yn talu teyrnged i’r GIG a’r Gwyddonwyr, ac hefyd mewn brysneges arall i ‘YES CYMRU’, tra’r Covid eto a gwallau’r gynghanedd oedd thema cynigion craff GARIBALDI GWYLLT.

Diolch am yr anrhydedd o gael beirniadu yn Eisteddfod ryfeddol ac arbennig Swyddffynnon. Mae’n 147 mlwydd oed, ac ni lwyddodd na rhyfeloedd na phandemig i atal y cystadlu. Mawr obeithiwn, yn 2022, y byddwn nôl unwaith yn rhagor ym mwrlwm y cystadlu byw. Do, bu’n fraint, a diolch i’r bobl dda hynny sy’n parhau i weithio mor galed er mwyn sicrhau ei dyfodol.

John a Menna Jones.

Gwenllian Beynon, Pontrhydfendigaid oedd ein beirniad ffotograffiaeth, a chafwyd nifer fawr o geisiadau, ychydig mewn copi caled a’r gweddill ar ffurf electronig! Dyma’r hyn a ddywedodd:

“Waw, am gystadlu arbennig! Wnes i wir fwynhau edrych ar y gwaith ac roedd yn wirioneddol anodd i ddewis y gorau. Llongyfarchiadau i bawb wnaeth gyflwyno ffotograffau, a chystadlu. Mae’n braf gweld cefnogaeth i Eisteddfod leol a bod yr Eisteddfod leol yn ymateb i gyfnod anodd iawn y pandemic yma”.

Enfys: 1af – Gaenor Mai Jones, Aberystwyth 2il – Nicola Davies 3ydd – Wendy Davies

Ffrind: 1af – Joshua Jones 2il – Anwen James, Llangeitho 3ydd – Hefina James, Lledrod

Canmoliaeth uchel i Karen Rees

Natur: 1af – Anwen James, Llangeitho 2il – Joshua Jones 3ydd – Aled Lewis, Ystrad Meurig

Canmoliaeth uchel i Wendy Davies

Dymuna pwyllgor yr Eisteddfod ddiolch i bawb am ein cefnogi yn ein ffurf amgen eleni. Diolch i’r tri beirniad sef John, Menna a Gwenllian – bu’n wythnos brysur arnynt gyda’r holl geisiadau a ddaeth i law. Edrychwn ymlaen at eich croesawu nôl i Neuadd Pantyfedwen y flwyddyn nesaf, a hynny ar ddydd Gwener, 18 Chwefror 2022 os bydd yr amgylchiadau yn caniatau.